WG38816

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad yr Ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion

# Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol

Medi 2021

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80195-941-4

**Cynnwys**


| Pennod | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Ymgynghori ac ymgysylltu | 3 |
| 3 | Cynigion allweddol | 4 |
| 4 | Trosolwg o'r ymatebion a'r newidiadau allweddol | 6 |
| 5 | Crynodeb manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru | 8 |
| Atodiad | Y sefydliadau a'r unigolion a gyflwynodd sylwadau | 40 |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus 14 wythnos o hyd ar ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol newydd ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd ac erydu arfordirol gan gyhoeddi fersiwn ddrafft o ***Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol***. Gwahoddwyd sylwadau ar y ddogfen hon rhwng 9 Hydref 2019 ac 17 Ionawr 2020.

1.2 Roedd y fersiwn ddrafft yn cynnig y byddai fersiwn wedi'i diweddaru o Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 yn disodli canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol ar y canlynol: datblygu a pherygl llifogydd a geir yn fersiwn 2004 o TAN 15; erydu arfordirol a geir yn TAN 14: Cynllunio’r Arfordir (dyddiedig mis Mawrth 1998). Cynigiwyd y câi TAN 14 a fersiwn 2004 o TAN 15 eu diddymu o ganlyniad.

1.3 Ystyriwyd bod angen diweddaru polisi cynllunio cenedlaethol ar lifogydd ac erydu arfordirol o ganlyniad i adolygiad o'i effeithiolrwydd yn 2017. At hynny, roedd yn briodol diweddaru diweddariadau technegol ehangach, gan gynnwys y gallu i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu mapiau llifogydd ac erydu arfordirol llawer gwell, er mwyn sicrhau bod polisïau cynllunio cenedlaethol cyfredol ar y mater hwn yn berthnasol ac yn addas at y diben.

1.4 Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol arall ar y Map Llifogydd drafft ar gyfer Cynllunio rhwng 12 Tachwedd 2020 ac 8 Ionawr 2021. Yn fersiwn ddrafft TAN 15, cynigiwyd y gallai'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio ddisodli'r Map Cyngor Datblygu presennol. Rhannwyd manylion yr ymgynghoriad â'r holl sefydliadau ac unigolion hynny a ymatebodd i'r prif ymgynghoriad ar ddogfen TAN 15.

## 2. Ymgynghori ac ymgysylltu

2.1 Roedd manylion yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Mae gan Lywodraeth Cymru restr o randdeiliaid sefydledig yn y system gynllunio a hysbyswyd pob un ohonynt am yr ymgynghoriad drwy e-bost uniongyrchol ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion Cynllunio y 25 o awdurdodau cynllunio lleol, 23 o ymgyngoreion statudol, 101 o ymgyngoreion anstatudol a phum grŵp buddiant arbennig. Cafodd cysylltiadau eraill y gwyddys bod ganddynt ddiddordeb yn y pwnc, gan gynnwys pobl sydd wedi gohebu â Llywodraeth Cymru, eu hysbysu am yr ymgynghoriad hefyd.

2.2 Manteisiwyd ar amryw gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad gan gynnwys cyfarfodydd â'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cenedlaethol a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, a chyhoeddiadau a bwletinau rheolaidd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru.

## 3. Cynigion allweddol

3.1 Roedd fersiwn ymgynghori TAN 15 yn cynnwys nifer o newidiadau arfaethedig gan gynnwys:

- Diweddariadau ffeithiol i derminoleg a chyfeiriadau – e.e. *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru* yn cael ei disodli gan **Cyfoeth Naturiol Cymru**.
- Y Map Cyngor Datblygu yn cael ei ddisodli gan Fap Llifogydd newydd i Gymru, a gaiff ei gynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd Map Llifogydd Cymru yn dangos ardaloedd sy'n wynebu perygl uchel/canolig (parth 3), perygl isel (parth 2) a pherygl isel iawn (parth 1) fel tri pharth llifogydd gwahanol.

*Crynodeb o'r polisi arfaethedig ar gyfer y parthau llifogydd newydd*

| Enw'r Parth Llifogydd | Datblygiad dan Fygythiad Mawr (gan gynnwys tai) | Datblygiad dan Lai o Fygythiad |
|---|---|---|
| **Parth 1**<br>**Perygl Isel Iawn** | Mae pob math o ddatblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor | |
| **Parth 2**<br>**Perygl Isel** | Bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Rhaid i bob datblygiad fodloni profion llym. Os caiff y profion eu bodloni, dylid dylunio'r datblygiad i allu gwrthsefyll llifogydd gan na ellir sicrhau na fydd y datblygiad yn profi llifogydd. Os oes amddiffynfeydd rhag llifogydd yn bodoli, mae'n fwy tebygol y caiff y profion eu bodloni | |
| **Parth 3**<br>**Perygl Uchel a Chanolig** | Ni ddylid cynnig datblygiadau newydd.<br><br>Dylai Awdurdodau Cynllunio annog datblygwyr i beidio â pharatoi Asesiadau damcaniaethol o Ganlyniadau Llifogydd. | Bydd angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd. Rhaid i bob datblygiad fodloni profion llym. Os caiff y profion eu bodloni, dylid dylunio'r datblygiad i allu gwrthsefyll llifogydd oherwydd dylid cydnabod bod y datblygiad yn debygol o brofi llifogydd. Os oes amddiffynfeydd rhag llifogydd yn bodoli, mae'n fwy tebygol y caiff y profion eu bodloni |


- Cynnwys mapiau dŵr wyneb ym Map Llifogydd newydd Cymru, i ddisodli dosbarthiad cynghorol Parth B a geir yn y Map Cyngor Datblygu.
- Newidiadau i'r Categorïau Datblygu, gan gynnwys categori newydd 'datblygiad sy'n gydnaws â dŵr'. Mae gwahanol fathau o ddefnydd tir, fel ynni adnewyddadwy, wedi cael eu hychwanegu at y canllawiau, ac mae rhai mathau o ddatblygiadau wedi newid categorïau.

- Pwysleisio pwysigrwydd y Cynllun Datblygu a thynnu sylw at yr angen am Asesiadau Strategol cynhwysfawr o Ganlyniadau Llifogydd i lywio strategaethau datblygu, prosesau dethol safleoedd a pholisïau cynllunio.
- Canllawiau ar sut y dylai mentrau adfywio mawr sy'n effeithio ar gymunedau mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd fynd drwy lefelau cenedlaethol a rhanbarthol y system gynllunio.
- Diweddaru'r canllawiau ar erydu arfordirol a geir ar hyn o bryd yn TAN 14 a'u cynnwys yn TAN 15.  Bydd hyn yn golygu y gellir diddymu TAN 14.
- Mae canllawiau mewn perthynas â'r profion cyfiawnhau a derbynioldeb wedi cael eu diweddaru er mwyn egluro na ddylai awdurdodau cynllunio ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau dan fygythiad mawr mewn ardaloedd perygl uchel a chanolig (parth 3).
- Cyngor newydd ar sicrhau bod datblygiad yn gallu gwrthsefyll llifogydd ac ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth gynnig amddiffynfeydd newydd neu well rhag llifogydd.

## 4. Trosolwg o'r ymatebion a'r newidiadau allweddol

4.1 Cafwyd cyfanswm o 77 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Y grŵp ymateb mwyaf yn ôl math oedd awdurdodau cynllunio lleol gydag 20 allan o'r 25 yn ymateb, sef 31% o gyfanswm yr ymatebion a ddaeth i law. Cafwyd pedwar ymateb arall gan adrannau eraill awdurdodau lleol, heblaw adrannau cynllunio. Roedd ymatebion gan fusnesau yn cyfrif am 27% o'r cyfanswm. Roedd y sector cyhoeddus (heb gynnwys awdurdodau lleol) yn cyfrif am 19% a daeth 17% o'r ymatebion gan gyrff proffesiynol neu grwpiau buddiant. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd a'r Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd. Cafwyd nifer bach o ymatebion, sef 5%, gan unigolion.

4.2 Ceir dadansoddiad llawn o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn.




4.3 Mae'r ymgynghoriad wedi arwain at nifer o newidiadau pwysig ac arwyddocaol i'r ddogfen. Mewn rhai achosion, argymhellwyd newidiadau penodol gan ymatebwyr a newidiwyd y ddogfen yn uniongyrchol yn unol â hynny. Mewn meysydd eraill, ysgogodd yr ymatebion fwy o waith meddwl a thrafod â rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a llywodraeth leol.

4.4 Mae'r newidiadau mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r parthau llifogydd a nodwyd ar y Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn glir fod disgwyl y dylai amddiffynfeydd rhag llifogydd gyfiawnhau dull gwahanol (a mwy caniataol) o ddatblygu nag a geir mewn ardaloedd heb amddiffynfeydd. Er bod y cyngor yn cydnabod yr egwyddor hon, roedd yn bwysig datblygu cynrychioliad gofodol clir o'r ardaloedd hynny lle mae amddiffynfeydd yn golygu y gellir mabwysiadu dull polisi penodol. Arweiniodd hyn at greu 'Parthau a Amddiffynnir TAN 15' newydd ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

4.5 Yn fras, mae Parthau a Amddiffynnir TAN 15 yn disodli parth C1 y Map Cyngor Datblygu. Gan fod y polisi ar ddatblygiadau newydd yn fwy caniataol yn y parth hwn na pharthau heb amddiffynfeydd rhag llifogydd, mae'n bwysig bod y parthau i gyd yn cynnig lefel sylweddol o ddiogelwch rhag llifogydd. Defnyddiwyd diffiniad cyson i nodi parthau a amddiffynnir TAN 15, sef bod yn rhaid iddynt roi safon o ddiogelwch rhag y perygl o lifogydd o afonydd sy'n fwy nag 1 mewn 100 (ynghyd â lwfansau newid hinsawdd a bwrdd rhydd), neu safon o ddiogelwch rhag y perygl o lifogydd o'r môr sy'n fwy nag 1 mewn 200 (yn ogystal â lwfansau newid hinsawdd a bwrdd rhydd). Mae'r trothwyon hyn yn gymwys i Gymru gyfan, ac nid oes maint gofynnol ar gyfer y parthau a amddiffynnir. Mae'r TAN yn egluro na all ardaloedd ag amddiffynfeydd sy'n cynnig safonau is o ddiogelwch gael eu nodi yn barthau a amddiffynnir at ddibenion cynllunio.

4.6 Mae'r TAN newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb a'r bygythiad o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin neu fach na'r ddogfen flaenorol. Caiff y risgiau hyn eu mapio ar wahân i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag afonydd a'r môr, ac mae ganddynt oblygiadau polisi gwahanol. Nid oedd hyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori, felly roedd yn bwysig bod y ddogfen derfynol yn cael ei diwygio a'i gwella.

4.7 Un maes arall lle mae adborth wedi arwain at newid arwyddocaol yw trefniadau draenio ar safleoedd datblygu. Mae'r TAN yn cynghori y dylid paratoi datganiad draenio o dan rai amgylchiadau, er mwyn egluro sut y caiff systemau draenio cynaliadwy (SDCau) eu cynnwys mewn prosiect. Ers 2019 mae wedi bod yn ofynnol i'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd gynnwys SDCau a chael cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SDCau ar gyfer y trefniadau. Mae'r system gydsynio hon ar wahân i'r system gynllunio, ond mae'n fwy effeithiol pan gaiff ei defnyddio ochr yn ochr â'r system gynllunio. Fodd bynnag, mae llawer o ymgeiswyr yn dewis gwneud cais am ganiatâd cynllunio yn gyntaf, ac mae'r datganiad draenio yn ffordd o grynhoi trefniadau ac osgoi gwrthdaro rhwng y ddwy broses gydsynio.

4.8 Caiff newidiadau eraill i'r TAN eu hegluro yn ymatebion Llywodraeth Cymru i gwestiynau'r ymgynghoriad yn y bennod ganlynol.

## 5. Crynodeb manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymatebion Llywodraeth Cymru

5.1 Ceir dadansoddiad cryno o'r canfyddiadau allweddol ar gyfer pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad isod, ac yna ceir ymateb Llywodraeth Cymru.


5.2 Dylid nodi nad yw'r dadansoddiad meintiol cryno a ddarperir yn y tablau isod yn adlewyrchu cyfanswm yr ymatebwyr. Yn hytrach, mae'n seiliedig ar nifer yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau yn uniongyrchol. Lle bo hynny'n bosibl, mae safbwyntiau wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol o dan bob tabl os ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â phwnc y cwestiwn, hyd yn oed os na chawsant eu rhoi fel atebion penodol i'r cwestiwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau yn gofyn i'r ymatebwyr ymhelaethu ar eu safbwyntiau; felly mae llawer o'r gwaith dadansoddi yn ansoddol.

## Cwestiwn 1 – Newid o fframwaith rhagofalus i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg

*Un o egwyddorion allweddol y TAN 15 diwygiedig yw cydnabod graddau gwahanol o berygl llifogydd (gweler adran 4). Bydd Map Llifogydd newydd Cymru yn disodli'r Map Cyngor Datblygu a bydd yn gwahaniaethu rhwng perygl uchel/canolig a pherygl isel, a bydd polisïau datblygu yn adlewyrchu maint y perygl. Bydd parthau llifogydd ar Fap Llifogydd newydd Cymru yn cynnwys lwfansau newid hinsawdd.*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 8 | 1 | 5 | 4 | 1 | 0 |
| Awdurdod Lleol | 1 | 13 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 5 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 0 | 5 | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Unigolion | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **33** | **8** | **11** | **6** | **2** | **0** |
| **%** | **3%** | **53%** | **13%** | **18%** | **10%** | **3%** | **0%** |



**Dadansoddiad Cryno**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (56%) yn cytuno â'r newid arfaethedig. Roedd cyfran fawr o awdurdodau lleol yn arbennig yn cefnogi'r cynnig. Roedd barn busnesau yn gymysg, gyda rhai yn cytuno ac eraill yn anghytuno â'r newid arfaethedig.

O'r rhai a oedd o blaid y dull gweithredu arfaethedig, roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu'r ffaith bod lwfansau newid hinsawdd wedi'u cynnwys fel ystyriaeth yn y gwaith mapio. Roedd rhai ymatebwyr yn gefnogol am fod y dull gweithredu yn gyson â'r hyn a wnaed ym maes perygl llifogydd mewn mannau eraill, gan gyfeirio at Loegr yn benodol.

Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid newid i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg, gofynnwyd beth fyddai hyn yn ei olygu'n ymarferol yn nhermau'r parthau llifogydd a ddynodir gan Fap Llifogydd Cymru. Roedd nifer mawr o ymatebwyr o'r farn y dylid bod wedi darparu'r Map fel rhan o'r ymgynghoriad, er mwyn helpu'r ymatebwyr i ddeall goblygiadau'r newidiadau polisi arfaethedig.

Hefyd, cafwyd sylwadau a chwestiynau gan nifer o ymatebwyr am y newidiadau arfaethedig i'r parthau llifogydd o'r rhai a geir ym Map Cyngor Datblygu 1. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch y cynnig ar gyfer Parth 1, gan gynnwys a fyddai'n ystyried newid hinsawdd. Cafwyd sylwadau a phryderon gan nifer mwy o ymatebwyr am y cynigion ar gyfer Parthau 2 a 3, lle awgrymwyd nad yw'r parthau (a Pharth 3 yn enwedig) yn dilyn dull gweithredu sy'n wirioneddol seiliedig ar risg am nad yw'r mapiau yn cynnwys ystyriaethau lleol fel amddiffynfeydd rhag llifogydd sy'n bodoli eisoes. Gwnaed sylwadau ar yr effaith andwyol y gallai'r cynnig ar gyfer Parth 3 yn enwedig ei chael ar gynlluniau adfywio ar gyfer ardaloedd perygl llifogydd os na chaiff yr ystyriaethau hyn eu cynnwys yn y mapiau a'r dull polisi arfaethedig. Yn hyn o beth, cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr ar y derminoleg a ddefnyddir ar gyfer y parthau, gan gynnwys awgrymu bod angen gwahaniaethu rhwng parth perygl ‘uchel/canolig’ o lifogydd er mwyn ystyried y potensial i ganiatáu mwy o ddatblygu mewn ardaloedd perygl ‘canolig’. Er mwyn deall goblygiadau'r dull mapio a pholisi arfaethedig yn llawn, gofynnodd rhai ymatebwyr am i asesiad o effaith neu ddadansoddiad o astudiaeth achos gael ei gynnal mewn perthynas â'r cynigion cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Gofynnodd nifer o ymatebwyr am eglurder ynghylch sut y byddai newid hinsawdd yn cael ei ystyried yn y canllawiau mapio a pholisi. Cododd rhai ymatebwyr faterion ynghylch sut y caiff gwaith mapio dŵr wyneb ei ystyried fel rhan o'r dull gweithredu hwn.

O safbwynt y broses ar gyfer cyflwyno ceisiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd ac ystyried risg, cyfeiriodd rhai ymatebwyr at rôl yr Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, gan gynnwys awgrymu bod angen asesu'r perygl o lifogydd ar sail safleoedd/achosion unigol.

Cafwyd sylwadau pellach ar y gwaith mapio gyda rhai ymatebwyr yn dweud bod angen diweddaru'r Map yn rheolaidd a sicrhau bod proses herio ar waith, lle gall gwybodaeth leol gyfrannu at ddynodiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o barthau perygl llifogydd. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen eglurder ynghylch sut y byddai Map

Asesu Perygl Llifogydd Cymru yn cael ei gymhwyso ochr yn ochr â'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer gweithredu Map Llifogydd Cymru.

Cafwyd sylwadau pellach ar y broses gwneud cais yn gyffredinol a chynnwys polisi ehangach y TAN drafft nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Cydnabyddir y byddai cyflwyno'r TAN drafft a Map Llifogydd Cymru gyda'i gilydd wedi helpu rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau'r newidiadau arfaethedig yn llawn. Serch hynny, roedd yr ymgynghoriad yn brawf pwysig o'r egwyddor graidd o wneud penderfyniadau ar sail risg.

Rhoddodd yr ymatebion gyd-destun ar gyfer y gwaith dilynol i ddatblygu a chwblhau Map Llifogydd newydd Cymru. Mae'r Map hwn bellach wedi'i ddatblygu yn llawnach a chyfeirir ato fel y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Sicrhaodd yr ymatebion fod darparu eglurder ynghylch y diffiniad o barthau yn flaenoriaeth i ni. Gwnaethant hefyd sicrhau bod asesiad trylwyr yn cael ei gynnal o sut y gellir cynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y polisi yn briodol.

Y canlyniad yw Map Llifogydd sy'n cynnwys parthau gwahanol ar gyfer gwahanol raddau a ffynonellau risg, gyda dulliau gweithredu polisi cryno ar gyfer pob parth. Mae'r dulliau gweithredu hyn yn seiliedig ar risg. Rydym yn glir na ddylai cartrefi newydd nac unrhyw ddatblygiadau eraill sydd dan fygythiad gael eu lleoli yn y parth sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd o afonydd a'r môr am fod y risg yn rhy uchel i unigolion, aelwydydd a chymunedau. Mewn ardaloedd lle gellir disgwyl llifogydd llai difrifol a llai aml, rydym yn glir y gall datblygu ar safleoedd tir llwyd fod yn briodol os caiff profion TAN 15 o dderbynioldeb y canlyniadau llifogydd eu bodloni.


Gwelwyd cefnogaeth gyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad o blaid cynnwys amcanestyniadau newid hinsawdd yn y graddau llifogydd gofodol ar y Map Llifogydd. Dyma un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol sydd gennym o gynnwys newid hinsawdd fel rhan o benderfyniadau cynllunio. Os gwyddom gyda lefel dda o sicrwydd fod mwy o law neu gynnydd yn lefel y môr yn debygol o olygu y bydd ardal dan fygythiad o lifogydd yn y dyfodol, mae dyletswydd arnom i ystyried yr wybodaeth hon wrth wneud ein penderfyniadau cynllunio, er mwyn diogelu anghenion a buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

## Cwestiwn 2 – Rolau a chyfrifoldebau

*Mae'r TAN diwygiedig wedi ceisio egluro prif rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau a'r asiantau allweddol yn y system gynllunio mewn perthynas â llifogydd ac erydu arfordirol.*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno bod y TAN yn rhoi eglurder?*

| Ymatebydd yn ôl math | Pob pennod yn eglur | Rhai penodau'n eglur | Y rhan fwyaf o'r penodau neu bob un ohonynt yn aneglur | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 7 | 6 | 3 | 0 | 3 |
| Awdurdod Lleol | 2 | 18 | 1 | 0 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 1 | 3 | 1 | 0 | 2 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 2 | 6 | 2 | 0 | 0 |
| Unigolion | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **13** | **34** | **7** | **0** | **5** |
| **%** | **21%** | **56%** | **12%** | **0%** | **8%** |




### Dadansoddiad Cryno

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (56%) o'r farn bod ‘rhai penodau'n eglur’ yn y TAN wrth egluro rolau a chyfrifoldebau. Roedd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr (21%) o'r farn bod ‘pob pennod yn eglur’ yn y TAN gyda thua un o bob deg (12%) o'r farn bod y TAN yn aneglur. Roedd y mwyafrif o'r holl wahanol fathau o

ymatebwyr o'r farn bod y TAN yn eglur naill ai ym mhob un o'i benodau neu rai ohonynt.

Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn gefnogol o ddull y TAN o egluro rolau a chyfrifoldebau o'r farn ei fod yn gwneud hynny'n glir ar y cyfan. Serch hynny, cafwyd sylwadau gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar sut y gallai'r TAN egluro rolau a chyfrifoldebau'n well.

Cafwyd sylwadau gan lawer o ymatebwyr ar ble y gallai'r TAN gynnig mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r asiantiaid a rhanddeiliaid allweddol amrywiol ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol. Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at rôl Cyfoeth Naturiol Cymru gan awgrymu y gellid cynnwys mwy o eglurder ynghylch natur y cyngor technegol y gall y corff ei gynnig ar y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol a'r modd y mae hyn yn cyd-fynd â'r rôl y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei chwarae yn y broses hon. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen i'r TAN nodi'n gliriach sut y dylai datblygwyr ac ymgeiswyr ystyried llifogydd ac erydu arfordirol yn eu cynlluniau datblygu. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen mwy o gydnabyddiaeth o'r angen i ymgysylltu â chymunedau ar y mater hwn. Cafwyd sylwadau eraill gan rai ymatebwyr a oedd yn awgrymu bod angen eglurder ynghylch y rolau y gall cyrff ac unigolion eraill eu chwarae, gan gynnwys y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru, yswirwyr, cynllunwyr at argyfwng a gwasanaethau brys ar gyfer safleoedd sy'n wynebu risg.

Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at y pynciau amrywiol sy'n ymwneud â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol a ble mae'r rhain yn plethu â rolau a chyfrifoldebau'r unigolion a'r cyrff amrywiol dan sylw. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y cyfrifoldebau am ystyried llifogydd dŵr wyneb, a dywedwyd bod angen cadarnhau cyfrifoldebau'r Cyrff Cymeradwyo SDCau o gymharu â'r ffordd y mae'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn rheoli perygl llifogydd ehangach. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am roi cyngor penodol ar ystyriaethau sy'n ymwneud ag erydu arfordirol. Gofynnodd ambell ymatebydd am eglurder ynghylch cyfrifoldebau am wneud cais am Asesiadau strategol a safle-benodol o Ganlyniadau Llifogydd a'u paratoi.

Ym marn rhai ymatebwyr, roedd yr adnoddau a'r sgiliau technegol sydd eu hangen ar awdurdodau lleol ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, ac at ddibenion cynllunio at argyfwng, yn ystyriaeth sylfaenol o safbwynt cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau penodedig. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y TAN yn cyfyngu ar rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol yn benodol ac nad oedd amgylchiadau lleol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar ddiwyg y TAN wrth egluro rolau a chyfrifoldebau. Yn benodol, gwnaed sylwadau a oedd yn awgrymu y dylai'r TAN ddiffinio rolau a chyfrifoldebau mewn ffordd gyson drwyddo draw. Dywedodd rhai ymatebwyr y gellid gwneud hyn mewn adran arall neu ar ffurf diagram neu dabl yn y ddogfen.

Cafwyd sylwadau eraill ar ystyriaethau ehangach ynghylch perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y broses gynllunio nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â rolau a chyfrifoldebau ac felly nid ydynt yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru


Cadarnhaodd yr adborth ei bod yn ddefnyddiol amlinellu rolau a chyfrifoldebau allweddol, a rhoddodd sicrwydd bod y dull pennod fesul pennod a geir yn y TAN drafft yn effeithiol.  Mae'r adrannau hyn wedi cael eu diwygio a'u diweddaru drwy'r ddogfen gyfan er mwyn adlewyrchu newidiadau a gwneud y ddogfen yn fwy cyson.  Roedd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, a gyhoeddwyd yn 2020, yn cynnwys diffiniadau gwerthfawr sydd wedi cael eu hatgynhyrchu yn y TAN lle bo hynny'n berthnasol.

### Cwestiwn 3 – Categorïau Datblygu

*Mae'r categorïau datblygu (adran 6, ffigur 2) wedi cael eu diwygio a'u diweddaru, gyda rhai mathau newydd o ddatblygiadau'n cael eu nodi (e.e. ynni adnewyddadwy) ac eraill yn symud i gategorïau gwahanol (e.e. adeiladau cyhoeddus, mannau agored).*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r categorïau datblygu?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 8 | 5 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Awdurdod Lleol | 1 | 12 | 7 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 4 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 1 | 5 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **31** | **17** | **7** | **0** | **0** | **2** |
| **%** | **5%** | **52%** | **28%** | **12%** | **0%** | **0%** | **3%** |




### Dadansoddiad Cryno

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn yn cefnogi'r categorïau datblygu a amlinellir yn y TAN (57%). Roedd y mwyafrif o'r holl fathau gwahanol o ymatebwyr yn cefnogi'r categorïau datblygu, ar wahân i'r rhai o'r sector cyhoeddus a oedd wedi'u rhannu rhwng y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd naill ai'n niwtral eu barn neu'n anghytuno â'r categorïau. Roedd tua un o bob deg o'r ymatebwyr (12%) yn anghytuno â'r categorïau datblygu.

Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r categorïau datblygu yn teimlo eu bod yn rhesymegol ar y cyfan. Fodd bynnag, dywedodd llawer o ymatebwyr y gallai'r mathau o ddatblygiadau a restrir yn y categorïau fod yn gliriach. Yn benodol, cyfeiriodd yr ymatebwyr at feysydd gwahanol fel y gwahaniaethau rhwng y mathau amrywiol o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy (fel hydro a allai gael ei restru o dan y categori 'cydnaws â dŵr'), yr angen i ddefnyddio terminoleg gyson ar gyfer y seilwaith trafnidiaeth, yr angen i ystyried defnyddio adeiladau cyhoeddus fel llochesi argyfwng a sut y byddai hyn yn gymwys i'r categorïau, a dosbarthiad mannau agored fel 'datblygiadau cydnaws â dŵr' o gymharu â'r gwahaniaeth a wneir i eithrio mannau chwarae â chyfarpar o'r categori hwn. Cododd rhai ymatebwyr faterionyn ymwneud â manylion mewn perthynas â mathau o ddatblygiadau gan gynnwys tai, gwestai, safleoedd gwaredu gwastraff, safleoedd cynhyrchu ynni a safleoedd mwynau. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch y diffiniad o ddatblygiadau sy'n 'gydnaws â dŵr' a'r modd y cânt eu hystyried o dan y profion cyfiawnhau a derbynioldeb a restrir mewn rhan arall o'r TAN.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y gellid gwneud y categorïau'n fwy cynhwysfawr ac awgrymwyd mathau eraill o ddatblygiadau i'w cynnwys fel rhan o'r categorïau datblygu. Roedd y mathau o ddatblygiadau a awgrymwyd gan rai o'r ymatebwyr yn cynnwys cyfleusterau trin dŵr a charthffosiaeth, datblygiadau sy'n gysylltiedig â seilwaith penodol fel seilwaith gwyrdd a datblygiadau amaethyddol.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried cynnwys mwy o gategorïau datblygu yn y TAN. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddefnyddio'r dull gweithredu sydd ar waith yn Lloegr sy'n cynnwys pum categori datblygu, oherwydd ystyriwyd y byddai hyn yn gyfle i sicrhau cysondeb a rhoi mwy o eglurhad o'r mathau o ddatblygiadau a restrir.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y testun ategol ym mharagraffau 6.2 i 6.6 a'r hyn roedd hyn yn ei olygu o safbwynt rhoi datblygiadau gwahanol yn y categorïau a restrir. Yn benodol, codwyd pryderon a chwestiynau am sut i ddiffinio datblygiadau 'bach', 'mawr' a defnydd cymysg o fewn y categorïau gwahanol, a dywedodd rhai ymatebwyr fod angen rhywfaint o hyblygrwydd yn hyn o beth. Nid oedd rhai ymatebwyr yn cytuno y dylai cwrtil llawn annedd, gan gynnwys yr ardd, gael ei gynnwys wrth ddiffinio ei pherygl o lifogydd. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am eglurder ynghylch sut i gymhwyso'r categorïau at gynigion datblygu mewn dau barth llifogydd neu fwy a beth fyddai hyn yn ei olygu i'r ffordd y cânt eu hystyried o dan y profion cyfiawnhau a derbynioldeb.

Cafwyd sylwadau ehangach gan rai ymatebwyr ar sut y caiff y categorïau datblygu eu hystyried o fewn parthau llifogydd gwahanol o dan y gofynion mewn polisi cenedlaethol a nodir yn Ffigur 3. Awgrymwyd newidiadau i'r tabl yn Ffigur 3 er mwyn rhoi eglurder ynghylch hyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Drwy'r ymatebion i'r cwestiwn hwn, cafwyd syniadau ac awgrymiadau defnyddiol sydd wedi helpu i wella'r adran Categorïau Datblygu.  Er enghraifft, mae'r adborth ar gynhyrchu ynni trydan dŵr a gorsafoedd gwylwyr y glannau wedi cael ei gydnabod a'i adlewyrchu yn y TAN terfynol.  Nid yw'r rhestr derfynol yn cynnwys popeth ond mae'n cynnwys y mathau mwyaf cyffredin o ddatblygiadau a defnydd tir.


Mae'r tri chategori wedi cael eu cadw oherwydd ystyrir eu bod yn rhoi eglurder a rhywfaint o symlrwydd sy'n helpu i arwain at benderfyniadau cyson.  Eglurwyd yn y cyngor y gallai rhai mathau o ddefnydd tir yr ystyrir eu bod yn gydnaws â dŵr gynnwys ardaloedd na ddylid eu gadael dan fygythiad o lifogydd – gan gynnwys ystafelloedd newid mewn mannau agored neu swyddfeydd sy'n gysylltiedig â marinas, er enghraifft. Un newid arall yw bod y cyngor ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys defnydd tir o fwy nag un categori bygythiad wedi cael ei ddiwygio i fynd i'r afael â phryderon am amwysedd.

## Cwestiwn 4 – Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd

*Mae'r TAN diwygiedig yn cefnogi'r system a arweinir gan gynlluniau drwy annog awdurdodau cynllunio i gynnwys ystyriaeth gynhwysfawr o lifogydd ac erydu arfordirol mewn Cynlluniau Datblygu, gan ddefnyddio tystiolaeth o Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (adran 7).*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 7 | 5 | 3 | 0 | 0 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 3 | 14 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 1 | 6 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Unigolion | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6** | **34** | **12** | **5** | **2** | **0** | **1** |
| **%** | **10%** | **57%** | **20%** | **8%** | **3%** | **0%** | **2%** |




### Dadansoddiad Cryno

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (67%) o blaid cynnwys ystyriaeth o lifogydd ac erydu arfordirol mewn Cynlluniau Datblygu, gan ddefnyddio tystiolaeth o Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Roedd y mwyafrif o'r holl fathau gwahanol o ymatebwyr yn gefnogol, ar wahân i fusnesau ac unigolion lle roedd rhaniad rhwng y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd naill ai'n niwtral eu barn, nad oedd ganddynt farn neu a oedd yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig. Roedd tua un o bob deg o'r ymatebwyr (11%) yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig.

Er bod y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid cynnwys ystyriaeth o lifogydd mewn cynlluniau datblygu gan ddefnyddio Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod angen ystyried ymhellach sut y byddai hyn yn cael ei wneud yn ymarferol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y goblygiadau o ran amseru sy'n gysylltiedig â chyhoeddi canllawiau yn y TAN mewn perthynas â chynnal Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a'r ffaith bod awdurdodau lleol ar gamau gwahanol yn y broses o baratoi cynlluniau datblygu, gyda rhai ohonynt eisoes wedi paratoi Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr adnoddau sydd eu hangen i baratoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Awgrymwyd y byddai'r Asesiadau hyn yn rhoi mwy o bwysau ar awdurdodau lleol o safbwynt costau a'r sgiliau sydd eu hangen (e.e. drwy gyflogi ymgynghorwyr i wneud y gwaith technegol). Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at rolau cynllunwyr at argyfwng yn y gwaith asesu, gan awgrymu bod angen eglurder ar y mater hwn. Holodd rhai ymatebwyr am gydberthnasau a rolau eraill sy'n gysylltiedig â pharatoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd, gan gynnwys rolau datblygwyr a Cyfoeth Naturiol Cymru yn y broses hon. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cryfhau'r gofynion ar gyfer Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd gan bwysleisio y dylai fod yn orfodol i awdurdodau lleol gwblhau'r asesiadau hyn. Roedd nifer o ymatebwyr yn arbennig o gefnogol o gynnal Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar sail dalgylch cyfan fel na chânt eu cyfyngu gan ffiniau awdurdodau lleol ond, unwaith eto, gofynnwyd am eglurder ynghylch sut y dylid cymhwyso'r Asesiadau Strategol hyn o Ganlyniadau Llifogydd.

O safbwynt y broses ar gyfer cynnal Asesiadau yn gyffredinol, dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod angen mwy o ganllawiau er mwyn rhoi eglurder a sicrhau bod yr Asesiadau'n cael eu paratoi mewn ffordd gyson ledled Cymru. Holodd nifer o ymatebwyr am faint o fanylder y dylid ei gynnwys fel rhan o Asesiad, gan gynnwys ei gwmpas a'i amcanion. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr hyn y byddai hyn yn ei olygu i asesiadau eraill ar y camau gwneud cais cynllunio a'r angen i osgoi dyblygu gwaith. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y TAN yn rhy ragnodol o ran ei bolisïau, sy'n golygu na fyddai'r Asesiad o fawr ddim defnydd wrth lywio cynlluniau datblygu mewn polisïau na dyrannu safleoedd a fyddai'n adlewyrchu amgylchiadau lleol ac yn ystyried hyblygrwydd. Yn hyn o beth, dywedodd rhai ymatebwyr fod angen mwy o ganllawiau ar gydbwyso amcanion Creu Lleoedd â'r amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Cododd rhai ymatebwyr faterion eraill lle gellid cael mwy o eglurder ar yr Asesiadau, gan gynnwys draenio, y defnydd o ddatrysiadau naturiol/seiliedig ar natur, eu defnydd mewn ardaloedd arfordirol, yr ystyriaeth a roddir i gronfeydd dŵr, y broses o gael gwybodaeth am lifogydd dŵr daear, eu rôl ym maes gwella cymunedau, ac ymgysylltu â chymunedau.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at fanylion geiriad y polisi a geir yn y TAN drafft mewn perthynas â'r broses o gynnal Asesiadau. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am ystyr “asesiad lefel eang” a'r geiriad ynghylch dethol safleoedd mewn ardaloedd perygl llifogydd, yn enwedig o ran amcanion cyflogaeth a phennu ystyriaethau lleol. Cwestiynodd rhai ymatebwyr y geiriad ar gymhwyso hyd oes o 100 mlynedd at anheddau er mai 75 mlynedd yw'r hyd oes a dderbynnir ar gyfer defnydd amhreswyl. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen cadarnhau na ddylid dyrannu safleoedd sy'n gwrthdaro â Chynlluniau Rheoli Traethlin.

Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr ar faterion sy'n berthnasol i fwy na'r broses o baratoi Asesiadau yn unig. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau ar weithredu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac oedi posibl wrth ddarparu seilwaith ar gyfer ardaloedd diamddiffyn os bydd angen nodi'r safleoedd hynny fel rhan o'r cynllun datblygu (fel y trafodir dan Adran 10 o'r TAN drafft).

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Roedd pwysleisio pwysigrwydd Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar y cam llunio cynlluniau yn un o'r amcanion allweddol wrth ddiweddaru TAN 15. Yn y gorffennol, mae manylder/dyfnder y gwaith dadansoddi mewn Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd wedi bod yn anghyson ac mae'r adborth yn dangos bod llawer yn teimlo bod diffyg canllawiau yn y maes hwn wedi cyfrannu at hyn. Un o fethiannau allweddol yr Asesiadau gwannaf fu'r diffyg cysondeb rhwng eu canfyddiadau a'r dewisiadau strategol a wneir yn y cynllun datblygu. Ein gweledigaeth yw y dylai Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd gyfrannu at lunio amcanion gofodol strategol mewn cynlluniau datblygu. Mae'r TAN diwygiedig yn darparu'r fframwaith ar gyfer hyn, ond bydd angen i awdurdodau cynllunio rannu arferion da a phrofiadau â'i gilydd hefyd.

Mae'r adran rolau a chyfrifoldebau yn tynnu sylw at rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gefnogi gwaith awdurdodau cynllunio ar Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Mae'n bwysig bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gysylltiedig o ddechrau'r broses, a'r corff hwn fydd yn y sefyllfa orau i gynghori awdurdodau ar wneud y gorau o'r dull iteraidd o gynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.

Roedd yr ymatebion mewn perthynas ag adnoddau yn adlewyrchu pryderon ehangach am y system a arweinir gan gynlluniau. Fel gyda phob enghraifft o flaenlwytho, dylid cydnabod bod buddsoddi mewn Asesiadau Strategol cynhwysfawr o Ganlyniadau Llifogydd ar y dechrau yn ffordd bwysig o leihau ansicrwydd ac anghydfod ar gamau diweddarach y broses gynllunio. Dylid hefyd ystyried y cyfle i gynnal Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar y cyd ag awdurdodau cyfagos fel ffordd o ddefnyddio adnoddau awdurdodau cynllunio yn effeithlon.


Un ychwanegiad pwysig at y cyngor ar Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yw bod yn rhaid iddynt ystyried sut y gellid lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau a datblygiadau sy'n bodoli eisoes, a'i reoli'n well. Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn gwneud y pwynt pwysig y dylid ehangu cwmpas Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd fel eu bod yn gwneud mwy nag ystyried ble y gellir lleoli datblygiadau newydd yn ddiogel. Mae'r adran hefyd yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch pryd y gellid cyfiawnhau datblygu mewn ardaloedd perygl llifogydd. Mae hyn yn creu cyswllt mwy cydlynol rhwng yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a'r prawf cyfiawnhau (adran 10), sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd nodi prosiectau mewn cynlluniau datblygu a fabwysiadir a sicrhau eu bod yn gyson ag amcanion y cynlluniau datblygu hynny.

## Cwestiwn 5 – Cynigion adfywio mawr

*Mae Adran 7.16 yn cynnig canllawiau newydd ar gynigion mawr i adfywio cymunedau a leolir mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd.*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 3 | 5 | 5 | 3 | 1 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 1 | 6 | 8 | 6 | 1 | 1 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 1 | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 2 | 2 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| Unigolion | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **17** | **15** | **14** | **5** | **2** | **2** |
| **%** | **9%** | **28%** | **25%** | **23%** | **9%** | **3%** | **3%** |




### Dadansoddiad Cryno

Cafwyd ymateb cymysg i'r canllawiau newydd arfaethedig ar gynigion mawr i adfywio cymunedau a leolir mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd. Er bod ychydig dros draean o'r ymatebwyr yn cefnogi'r dull gweithredu hwn (37%), roedd ychydig yn llai na thraean ohonynt yn anghytuno â'r dull gweithredu (32%) a dywedodd chwarter nad oedd ganddynt farn (25%). Roedd y cymysgedd hwn o ymatebion hefyd i'w weld wrth ddosbarthu ymatebwyr yn ôl math, ond roedd busnesau yn anghytuno mwy tra oedd y mwyafrif o ymatebwyr y sector cyhoeddus yn cefnogi'r canllawiau.

Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am fwy o fanylion a chanllawiau ar y dull gweithredu a nodir. Gofynnodd nifer mawr o ymatebwyr am eglurder ar yr hyn y gellid ei ddiffinio

fel adfywio ar raddfa fawr neu adfywio mawr mewn ardaloedd perygl llifogydd. Hefyd, cafwyd sylwadau gan lawer o ymatebwyr a ofynnodd am eglurder ynghylch y dull gweithredu a nodir ar gyfer penderfynu ar waith adfywio ar raddfa fawr ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am y goblygiadau i brosiectau cyn i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol gael eu mabwysiadu a pham na all awdurdodau lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol fynd i'r afael â'r mater hwn hefyd. Roedd gan rai ymatebwyr gwestiynau eraill am y ffordd y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn cael ei roi ar waith, gan gynnwys a fyddai prosiectau adfywio ar raddfa fach a datblygiadau defnydd cymysg yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd perygl llifogydd.

Cafwyd llawer o sylwadau ar gysondeb ac eglurder y dull gweithredu arfaethedig i ganiatáu gwaith adfywio o bosibl mewn ardaloedd perygl llifogydd gyda'r dull gweithredu ehangach a nodir yn y TAN drafft o ran datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd. Prif thema'r sylwadau hyn oedd y gallai methodoleg y TAN drafft ar gyfer cyfyngu ar fathau o ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd (gan gynnwys y Parth 3 arfaethedig) wrthdaro â'r polisi drafft hwn a mentrau, cynlluniau ac uchelgeisiau ehangach awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen ystyried amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol gan ddefnyddio methodoleg y TAN drafft, er mwyn sicrhau y gall cymunedau gael eu hadfywio os oes modd lliniaru'r perygl o lifogydd.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at yr agweddau ymarferol ar adfywio cymunedau, gan gynnwys ystyried materion yn ymwneud ag yswiriant a gwneud cymunedau'n fwy cydnerth er mwyn rheoli effeithiau llifogydd a'r perygl o lifogydd yn y dyfodol. Cafwyd sylwadau amrywiol gan rai o'r ymatebwyr ar y dull a nodir yn y polisi o gynnal seilwaith amddiffyn rhag llifogydd, ac awgrymwyd bod angen gwneud mwy i liniaru risgiau a sicrhau nad yw hyn yn ddibynnol ar adfywio. Daeth rhai sylwadau i law ar yr wybodaeth a oedd yn y TAN am gyllid a ffyrdd o sicrhau y gall cymunedau gael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag y perygl o lifogydd a'u hadfywio.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at oblygiadau ariannol gwaith adfywio, ac anghytunai rhai ohonynt â'r datganiad yng ngeiriad y polisi drafft y bydd canlyniadau sylweddol o ran arian cyhoeddus wrth ystyried y buddiannau ehangach y gall adfywio eu cynnig i gymunedau.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ystyriaethau ehangach o ran adfywio, gan gynnwys yr angen i ystyried seilwaith gwyrdd ac ystyried datblygiadau ar safleoedd maes glas fel dewis amgen.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Dangosodd yr adborth cymysg ar y cwestiwn hwn fod angen meddwl mwy am y rhan hon o'r ddogfen.  Mae'r egwyddor o gefnogi mwy o gydnerthedd mewn ardaloedd adeiledig presennol sy'n wynebu perygl o lifogydd yn bwysig ac mae'n uchelgais y mae angen ei gyflawni drwy TAN 15, yn ein barn ni.  Rydym yn cydnabod bod angen i'r uchelgeisiau hyn gael eu cyflawni yn unol â chyd-destun a pharamedrau polisi cynllunio cenedlaethol, yn hytrach nag fel eithriadau i'r polisi.

Ers cynnal ymgynghoriad TAN 15, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae'r cynllun datblygu cenedlaethol hwn yn cynnwys polisi ar lifogydd, sy'n cydnabod y bygythiad sylweddol o lifogydd sy'n wynebu rhai rhannau o'r ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'n datgan bwriad clir i alluogi ardaloedd poblog i wrthsefyll llifogydd ac, o ganlyniad, i leoli datblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd mewn modd diogel a chynaliadwy.

Mae'r adran ddiwygiedig o TAN 15, a ailenwyd yn 'Adfywio ac adnewyddu trefol', yn cydnabod polisi'r cynllun datblygu ac yn gosod fframwaith a fydd yn sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad mewn ardaloedd o'r fath ond yn digwydd yn y drefn briodol.


Mewn perthynas ag ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol mewn lleoliadau arfordirol, dylid ystyried polisi Cymru'r Dyfodol a chanllawiau TAN 15 wrth ddiweddaru cynlluniau rheoli traethlin. Yn yr un modd, bydd yr arbenigedd sy'n gysylltiedig â datblygu'r cynlluniau hynny yn helpu awdurdodau cynllunio i wybod ble a sut i wella cydnerthedd yn yr ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol.

## Cwestiwn 6 – Llifogydd dŵr wyneb

*Mae'r TAN diwygiedig yn rhoi mwy o amlygrwydd a mwy o ganllawiau ar ystyried llifogydd dŵr wyneb yn y system gynllunio. Yr awdurdodau cynllunio, gyda mewnbwn gan yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, fydd yn penderfynu a oes angen polisïau cynllunio lleol ar lifogydd dŵr wyneb.*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 1 | 8 | 4 | 3 | 0 | 1 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 1 | 9 | 4 | 4 | 3 | 1 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 4 | 3 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 0 | 5 | 0 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **27** | **12** | **12** | **3** | **2** | **1** |
| **%** | **4%** | **46%** | **20%** | **20%** | **5%** | **3%** | **2%** |




### Dadansoddiad Cryno

Cafwyd ymateb cymysg i'r canllawiau newydd arfaethedig ar y perygl o lifogydd dŵr wyneb yn y system gynllunio. Roedd union hanner yr ymatebwyr o blaid y dull gweithredu (50%), roedd chwarter yn anghytuno â'r dull gweithredu (25%) ac ni chynigiodd gweddill yr ymatebwyr farn bendant (25%). Roedd y cymysgedd hwn o ymatebion hefyd i'w weld wrth ddosbarthu ymatebwyr yn ôl math ond, ym mhob sector, roedd mwy o ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu nag yn anghytuno.

Cafwyd safbwyntiau amrywiol ar weithredu polisïau cynllunio lleol ar lifogydd dŵr wyneb. Dywedodd nifer o ymatebwyr fod angen mwy o ganllawiau neu fanylion yn y TAN ar gynnwys y perygl o lifogydd dŵr wyneb fel rhan o Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a pholisïau cynllunio lleol. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch sicrhau bod awdurdodau cynllunio yn gwneud hyn mewn ffordd gyson. Cododd rhai ymatebwyr bryderon am y geiriad a ddefnyddir yn y TAN drafft ym mharagraff 8.2 mewn perthynas â'r broses hon ac, yn enwedig asesu canlyniadau llifogydd mewn “ardaloedd â pherygl mawr a chanolig”, gan awgrymu bod angen eglurder fel y gellir cymhwyso hyn yn briodol ar y lefel leol.

Cododd llawer o ymatebwyr gestiynau am gynnwys y perygl o lifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin ym Map Llifogydd Cymru ac, yn benodol, roeddent am weld y rhain er mwyn rhoi ymateb gwybodus. Gofynnwyd hefyd a fydd y Prawf Cyfiawnhau yn berthnasol i'r ystyriaethau hynny.

Trafododd nifer o ymatebwyr rolau'r cyrff gwahanol wrth gymhwyso'r perygl o lifogydd dŵr wyneb mewn polisïau lleol. Trafododd rhai ymatebwyr rôl yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn y broses hon, gan gyfeirio at yr angen am fwy o gydweithio rhwng yr Awdurdodau Llifogydd hyn ac awdurdodau cynllunio ac awgrymu hefyd eu bod yn chwarae mwy o rôl ymgynghori statudol wrth ystyried ceisiadau cynllunio. Cafwyd sylwadau ac ymholiadau gan nifer mawr o ymatebwyr ar y ffordd y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn rhyngweithio â'r safonau i SDCau ar gyfer llifogydd dŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd a rôl y Corff Cymeradwyo SDCau. Gwnaed sylwadau a oedd yn awgrymu y gallai'r ddwy broses wrthdaro â'i gilydd a dyblygu ei gilydd. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder er mwyn gwahaniaethu rhwng rolau'r Corff Cymeradwyo SDCau ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol wrth ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai adnoddau yn broblem i awdurdodau cynllunio ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol wrth ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb.

Cyfeiriodd ymatebwyr amrywiol at ffactorau gwahanol a ddylai gael eu hystyried wrth asesu'r perygl o lifogydd dŵr wyneb. Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr ar y testun yn y TAN drafft ar gyrsiau dŵr cyffredin, a chafwyd awgrymiadau ar y geiriad ynghylch sut y dylent gael eu hystyried fel rhan o gynigion datblygu. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ddefnyddio SDCau gan awgrymu ychwanegiadau neu newidiadau i eiriad y TAN at y perwyl hwnnw, gan gynnwys ystyried seilwaith gwyrdd a sut y dylid ei gymhwyso fel rhan o ddull gweithredu dalgylch cyfan. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen eglurder yn y TAN ynghylch sut y dylai cyrsiau dŵr bach neu enghreifftiau lleol o lifogydd nas dangosir ar y mapiau llifogydd o reidrwydd, a ffynonellau artiffisial o lifogydd, gael eu hystyried wrth feddwl am berygl llifogydd. Cafwyd sylwadau pellach gan rai ymatebwyr ar ystyried dogfennau strategaeth ar y perygl o lifogydd, fel Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar y perygl o lifogydd dŵr wyneb yn lleol. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb fel rhan o Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd a thrwy fandadu strategaethau draenio ar gyfer ceisiadau cynllunio er mwyn sicrhau ei fod yn cael ystyriaeth ddyledus fel rhan o gynigion datblygu ym mhob ardal. Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr hefyd ar ddefnyddio tystiolaeth leol ac ymgysylltu'n lleol er mwyn helpu i ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb.

Cafwyd rhai sylwadau yn awgrymu bod angen gwneud newidiadau i rannau eraill o'r TAN, gan gynnwys Ffigurau 1 a 3, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r perygl o lifogydd dŵr wyneb a sicrhau dull gweithredu clir a chyson.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r cyngor ar gynllunio ar gyfer y perygl o lifogydd dŵr wyneb wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Un o egwyddorion craidd y dull gweithredu yw y gall risgiau gael eu mapio a'u cyflwyno ar sail genedlaethol, ond y bydd dealltwriaeth leol o natur y risgiau hynny. Dylai'r perygl o lifogydd dŵr wyneb gael ei ystyried mewn polisïau cynllunio lleol, ar sail tystiolaeth o Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a safbwyntiau arbenigwyr technegol, gan gynnwys yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae'r dull gweithredu yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio allu cymhwyso'r ystyriaeth o'r perygl o lifogydd dŵr wyneb yn briodol yn eu hardaloedd.

Mae'r Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys llifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr bach. Mae'n cynnwys dau barth llifogydd – parth 3 a pharth 2, yn seiliedig ar yr un trothwyon perygl â'r perygl o lifogydd o afonydd. Cynghorir awdurdodau cynllunio y bydd datblygiadau yn effeithio ar ble y bydd dŵr wyneb yn ymgasglu ac yn cronni, ac y gall dulliau rheoli a lliniaru priodol gael eu cynnig drwy geisiadau cynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod datblygiad yn cael ei leoli bellter priodol i ffwrdd o'r ardaloedd sy'n wynebu perygl.

Cydnabyddir y dylid rhoi mwy o eglurder ynghylch ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb yn y broses gynllunio a'r modd y bydd yn integreiddio â SDCau yn lleol. Bellach, ceir mwy o fanylion am rolau cyrff gwahanol, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a Chyrff Cymeradwyo SDCau.

At hynny, er mwyn cysoni prosesau cynllunio a Chyrff Cymeradwyo SDCau a sicrhau bod y perygl o lifogydd dŵr wyneb yn cael ei ystyried yn briodol mewn cynigion datblygu, diwygiwyd y TAN fel ei fod yn cynnwys cyfeiriadau gwell at yr angen i ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb ar y cam gwneud cais cynllunio. Mae trafodaethau manwl ag arbenigwyr ym maes llywodraeth leol wedi arwain at gynnwys cyngor newydd ar lunio Datganiadau Draenio, er mwyn sicrhau'r lefel uwch o gysondeb y cydnabyddir yn eang sydd ei hangen rhwng y ddwy system gydsynio. Bydd y datganiadau yn ofynnol ar gyfer datblygiadau y bydd angen iddynt gael caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth ar gyfer SDCau ac mewn achosion lle bydd ymgeiswyr yn dewis peidio â gwneud cais amdanynt ar yr un pryd. Bydd y datganiadau yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ystyried y perygl o lifogydd dŵr wyneb ar y cam gwneud cais cynllunio a, thrwy hynny, bydd yn lleihau'r siawns y bydd datblygiad yn cael un cydsyniad ond nid y llall. Fodd bynnag, mae'r TAN diwygiedig yn parhau i argymell mai'r arfer orau yw gwneud ceisiadau cynllunio a cheisiadau i Gyrff Cymeradwyo SDCau ar yr un pryd.

O safbwynt ystyriaethau ehangach ynghylch SDCau a dŵr wyneb, dylid darllen y TAN ar y cyd â pholisïau a strategaethau perygl llifogydd eraill Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cael ei nodi'n gliriach yn y TAN, er enghraifft drwy gyfeirio at y Safonau


Cenedlaethol Statudol sy'n cynnwys manylion priodol am sut y dylai SDCau gael eu dylunio a'u llunio.

### Cwestiwn 7 – Cynnwys materion erydu arfordirol yn TAN 15

*Ar hyn o bryd, ceir canllawiau cynllunio cenedlaethol ar erydu arfordirol yn Nodyn Cyngor Technegol 14 (1998). Cynigir y dylid diddymu TAN 14, gan ddiweddaru'r canllawiau perthnasol ar erydu arfordirol a'u cynnwys yn y TAN 15 diwygiedig (adran 9).*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 2 | 9 | 3 | 1 | 0 | 0 | 3 |
| Awdurdod Lleol | 1 | 14 | 3 | 1 | 0 | 0 | 4 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 3 | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Unigolion | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **6** | **31** | **8** | **3** | **1** | **0** | **10** |
| **%** | **10%** | **52%** | **14%** | **5%** | **2%** | **0%** | **17%** |




### Dadansoddiad Cryno

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (62%) yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i gynnwys canllawiau ar erydu arfordirol yn y TAN 15 diwygiedig. Ni chafwyd barn bendant gan bron i draean o'r ymatebwyr (31%) ac roedd llai nag un o bob deg yn anghytuno â'r dull gweithredu (7%). Cafwyd barn gymysg gan ymatebwyr o'r sector cyhoeddus, gydag ychydig yn fwy o ymatebwyr naill ai'n anghytuno neu'n datgan nad oedd ganddynt farn bendant, yn hytrach na chytuno â'r dull gweithredu.

Gwnaed nifer o sylwadau o blaid y dull gweithredu, gan gynnwys sylwadau a oedd yn dweud bod TAN 14 yn hen ac y byddai canllawiau integredig yn galluogi pobl fel datblygwyr a chynllunwyr i ystyried materion yn ymwneud ag erydu arfordirol a'r perygl o lifogydd yn well.

Dywedodd nifer mawr o ymatebwyr fod angen eglurder yn y TAN ar faterion yn ymwneud ag erydu arfordirol. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i'r TAN fod yn fwy eglur ynghylch y rolau gwahanol sy'n gyfrifol am ystyried erydu arfordirol, gan gynnwys rolau Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Grwpiau Arfordirol, Awdurdodau Morol a chymunedau. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen mwy o eglurder ynghylch y cynlluniau a'r dogfennau ehangach hynny sy'n llywio penderfyniadau ar ddatblygu mewn ardaloedd arfordirol, fel Cynlluniau Rheoli Traethlin, y Map Rheoli Risg Erydiad Arfordirol Cenedaethol, cynlluniau datblygu, Datganiadau Ardal a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen i erydu arfordirol a materion yn ymwneud â risg gael eu hystyried ar lefel strategol, gan gynnwys fel rhan o Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd.

Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at y broses o wneud penderfyniadau ar ddatblygiadau arfordirol a'r ffaith bod angen mwy o wybodaeth am y ffactorau hynny a gaiff eu hystyried. Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o wybodaeth am y ffordd y caiff amddiffynfeydd arfordirol presennol neu arfaethedig eu hystyried wrth asesu cynigion datblygu mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl o erydu arfordirol. Cafwyd sylwadau ehangach hefyd yn awgrymu bod angen eglurder ynghylch materion yn ymwneud ag amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol, fel cynnal a chadw. Roedd yr ymatebion hefyd yn tynnu sylw at faterion eraill yn ymwneud â datblygu ac erydu arfordirol. Gofynnodd rhai ymatebwyr am i'r TAN gydnabod sut y caiff cynigion ar gyfer addasiadau arfordirol eu hwyluso, a dywedodd rhai ymatebwyr na ddylai'r TAN fod yn niweidiol i gynlluniau i adfywio cymunedau arfordirol.

Codwyd materion rhyng-gysylltiedig eraill mewn perthynas ag erydu arfordirol, er enghraifft, gofynnodd nifer o ymatebwyr am i'r TAN gynnwys gwybodaeth am y ffordd y caiff gweithred tonnau ei hystyried mewn perthynas â pherygl llifogydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn dal o'r farn bod angen TAN ar wahân ar erydu arfordirol, yn bennaf am eu bod yn ystyried ei fod yn fater ar wahân sy'n galw am ganllawiau cynhwysfawr, gwahanol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Rydym yn croesawu'r ymateb cadarnhaol i'r cynnig i gynnwys y canllawiau ar lifogydd ac erydu arfordirol. Mae adnoddau fel y cynlluniau rheoli traethlin ac asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd yn effeithiol o ran ystyried materion yn ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol, felly mae'n gwneud synnwyr cyfuno'r ddau faes mewn un TAN 15.

Mae'r sylwadau manwl wedi ein helpu i fireinio'r cyngor arfaethedig yn adran 9, sy'n cynnwys ffurfio cysylltiadau cryfach rhwng tystiolaeth a chasgliadau cynlluniau rheoli traethlin a chynlluniau datblygu, a thynnu sylw at y rhyng-gysylltiadau rhwng cynllunio

defnydd tir a chynllunio morol. Ychwanegwyd diagram, yn seiliedig ar Ffigur 1 yn TAN 14, er mwyn dangos y cysylltiadau hyn.


Bydd y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn cynnwys gwybodaeth am y perygl o erydu arfordirol, a bydd cyngor clir yn TAN 15 na ddylai unrhyw ddatblygiadau newydd gael eu caniatáu yn yr ardaloedd hynny. Gall mwy o bolisïau lleol penodol ar gyfer ardaloedd arfordirol gael eu datblygu a'u nodi mewn cynlluniau datblygu.

### Cwestiwn 8 – Profion cyfiawnhau a derbynioldeb

*Rydym yn cynnig cadw'r 'profion TAN 15' presennol, gan ddiweddaru'r canllawiau ar y ffordd y dylai'r profion hyn gael eu cymhwyso at wahanol fathau o gynigion datblygu (adrannau 10 ac 11).*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r canllawiau mewn perthynas â'r profion cyfiawnhau a derbynioldeb?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 0 | 8 | 1 | 3 | 8 | 0 | 0 |
| Awdurdod Lleol | 1 | 8 | 1 | 8 | 4 | 0 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 0 | 3 | 3 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Unigolion | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **22** | **7** | **13** | **15** | **1** | **0** |
| **%** | **2%** | **37%** | **12%** | **22%** | **25%** | **0%** | **2%** |




### Dadansoddiad Cryno

Cafwyd ymateb cymysg i'r canllawiau arfaethedig mewn perthynas â'r profion cyfiawnhau a derbynioldeb. Roedd ychydig yn llai na hanner yr holl ymatebwyr yn anghytuno â'r dull gweithredu (47%), roedd ychydig dros draean o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull gweithredu (39%) ac ni chafwyd barn bendant gan ychydig dros un o bob deg o'r ymatebwyr (14%). Roedd yr amrywiaeth hon o ymatebion i'w gweld ym mhob grŵp o ymatebwyr, ond roedd mwy o ymatebwyr o'r sector cyhoeddus a chyrff proffesiynol / grwpiau buddiant yn cytuno â'r canllawiau arfaethedig nag yn anghytuno.

Ar y cyfan, dywedodd yr ymatebwyr hynny a oedd o blaid y canllawiau eu bod yn glir a bod angen y profion.

Gwnaeth nifer mawr o ymatebwyr ofyn am eglurder a/neu gwestiynu'r profion cyfiawnhau a restrir yn Adran 10. Yn benodol, gwnaed sylwadau ar y pwyntiau canlynol:

- Y gofyniad i ddatblygiadau ym Mharth 2 gael eu lleoli mewn ardaloedd lle ceir seilwaith amddiffyn rhag llifogydd, gan gynnwys safonau'r mesurau amddiffyn yn y Parth hwn;
- Pam nad yw amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol yn cael eu hystyried ar gyfer Parth 3;
- Y gofyniad 'creu lleoedd' ar gyfer datblygiadau ym Mharth 2 gan fod hyn eisoes wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru;
- Cyfyngiadau ar ddatblygiadau ar safleoedd tir glas ym Mharthau 2 a 3 gyda sylwadau o blaid ac yn erbyn hyn. Yn hyn o beth, gofynnwyd hefyd pam nad yw tir a ddatblygwyd yn y gorffennol yn cael ei ystyried ar gyfer datblygiadau ym Mharth 3;
- Goblygiadau ymarferol y gofyniad i gynnwys prosiectau yn y cynllun datblygu a'r iaith a ddefnyddir yn y gofyniad hwn i wahanol fathau o ddatblygiadau, yn enwedig cysondeb y termau "wedi'i ddyrannu" ac "wedi'i nodi";
- Goblygiadau o ran amseru mewn perthynas â pharatoi Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a chynlluniau datblygu;
- P'un a ganiateir rhywfaint o hyblygrwydd ai peidio mewn perthynas â chaniatáu datblygiadau, gan gynnwys y rhai y nodir eu bod dan fygythiad mawr, mewn parthau ac mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd.

O safbwynt yr uchod a'r dull gweithredu cyffredinol ar gyfer y profion cyfiawnhau, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn rhy gyfyngol neu gaeth mewn perthynas â datblygiadau newydd mewn ardaloedd perygl llifogydd, a chafwyd sylwadau pellach yn awgrymu na fyddai hyn yn rhoi hyblygrwydd lleol, a allai ddifetha cymunedau presennol a chyfyngu ar ddatblygu. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y ffaith nad oedd y profion yn ystyried mesurau lliniaru yn broblem hefyd.

Cafwyd sylwadau a chwestiynau ynghylch geiriad y profion derbynioldeb a restrir yn Adran 11 hefyd. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch sut y byddai asesiadau torri a blocio a chynlluniau wrth gefn lleol yn cael eu cynnal. Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch y gofyniad i gynnal Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer pob un o'r parthau llifogydd gwahanol a sut y byddai'r perygl o lifogydd dŵr wyneb yn gymwys i'r gofyniad hwn a'r Adran hon. Gofynnodd nifer o ymatebwyr hefyd am eglurder ynghylch Ffigurau 4 a 6 yn yr Adran hon, a chwestiynodd rhai ymatebwyr y Matrics Perygl Llifogydd yn Ffigur 6 yn benodol.

Cafwyd sylwadau ehangach gan rai ymatebwyr ar y profion, gan gynnwys sut y byddai Map Llifogydd Cymru a'i ddefnydd o ddata priodol yn gymwys iddynt. Cafwyd sylwadau ehangach eraill nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r profion, gan gynnwys sylwadau ar y geiriad ar orlifdir cydadferol yn Adran 12, Ffigur 7, ac ar faterion yn ymwneud â rheoli datblygiadau, lle ymholwyd ynghylch trefniadau dros dro a threfniadau cyhoeddi'r TAN ar gyfer ceisiadau cynllunio byw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi arwain at nifer o newidiadau i adrannau 10 ac 11, sy'n amlinellu 'profion TAN 15'. Roedd yn hanfodol datblygu'r map newydd (Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio) yn llawn er mwyn gallu mireinio'r profion hynny, a dychmygu, paratoi a phrofi senarios gwahanol.

Adran 10 - prawf cyfiawnhau
Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, mae'r cyngor diwygiedig yn cydnabod bod safleoedd tir llwyd neu dir a ddatblygwyd yn y gorffennol yn lleoliadau mwy cynaliadwy ar gyfer datblygiadau. Mae hyn yn arbennig o wir wrth ystyried perygl llifogydd, gan fod gan dir llwyd briodweddau pwysig o ran storio ac amsugno llifogydd. Felly, mae Adran 10 yn nodi mai dim ond os ydynt ar safleoedd tir llwyd y caiff datblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd (parth 3, parth 2, parth a amddiffynnir TAN 15) eu cyfiawnhau.

Daw'r trothwy cyfiawnhau yn fwy llym wrth i'r perygl o lifogydd gynyddu. Mae'r categori bygythiad a gaiff ei gymhwyso at ddefnydd tir yn ffactor newidiol arall a gaiff ei gydnabod yn y profion cyfiawnhau. Mae'r profion yn ceisio atgyfnerthu uchafiaeth y cynllun datblygu yn y broses gwneud penderfyniadau, drwy gydnabod y bydd prosiectau a ddyrennir mewn cynllun wedi cael eu harchwilio'n drylwyr. Effaith hyn yw bod cysylltiadau agos rhwng yr adran hon a'r adran flaenorol ar Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (adran 7).

Adran 11 – prawf derbynioldeb canlyniadau
Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion sy'n bodloni'r prawf cyfiawnhau yn adran 10 ac ni ddylid ei defnyddio fel ffordd o gyfiawnhau prosiectau nad ydynt yn cydymffurfio â chyngor ehangach TAN 15. Mae'n ymwneud â lefelau rhydd o lifogydd ac amodau goddefadwy mewn datblygiadau, gan gydnabod y gallai datblygiadau a gaiff eu cyfiawnhau mewn ardaloedd perygl llifogydd wynebu llifogydd.

Roedd hyblygrwydd a disgresiwn o dan amgylchiadau o'r fath yn fater a gododd dro ar ôl tro gyda'r TAN 15 blaenorol ac mae'r diweddariad hwn wedi ceisio lleihau ansicrwydd posibl a chanfyddedig. Caiff y trothwyon ar gyfer lefelau rhydd o lifogydd eu nodi'n glir ar gyfer pob categori bygythiad. Mae'r trothwyon hyn yn ofyniad sylfaenol ar gyfer datblygu ac maent yn gyson â throthwyon y map ac, felly, y cyngor ar yr hyn y gellir ei gyfiawnhau a'r hyn na ellir ei gyfiawnhau mewn ardaloedd perygl llifogydd. Gwrthodir yr awgrym bod angen i'r trothwyon hyn fod yn hyblyg; byddai hyblygrwydd yn creu ansicrwydd ac o bosibl yn gwanhau bwriad y polisi i atal datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd perygl llifogydd.


Cafodd yr amodau goddefadwy ar gyfer datblygiadau a leolir mewn ardaloedd perygl llifogydd eu cynnig ar ffurf symlach na'r TAN blaenorol, gyda dau ddangosydd o ddifrifoldeb llifogydd, yn hytrach na phedwar. Bydd hyn yn arwain at gasgliadau cliriach ynghylch priodoldeb lleoli datblygiad mewn ardaloedd perygl llifogydd. Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhywfaint o ddisgresiwn yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn, a'r awdurdod cynllunio a'i gynghorwyr fyddai'n gyfrifol am ystyried hyn.

### Cwestiwn 9 – Dyluniad cydnerth ac amddiffynfeydd rhag llifogydd

*Caiff y newid i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg ei ategu gan ganllawiau ychwanegol ar alluogi cymunedau ac eiddo i wrthsefyll llifogydd (adran 13). Ceir canllawiau diwygiedig hefyd ar yr hyn y dylid ei ystyried pan gaiff amddiffynfeydd rhag llifogydd newydd neu well eu cynnig.*

*I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu hwn?*

| Ymatebydd yn ôl math | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod | Dim barn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Busnesau | 0 | 9 | 4 | 2 | 1 | 0 | 1 |
| Awdurdod Lleol | 2 | 11 | 5 | 4 | 0 | 1 | 0 |
| Sector Cyhoeddus | 0 | 4 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant | 1 | 5 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Unigolion | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** | **31** | **12** | **10** | **1** | **1** | **1** |
| **%** | **5%** | **52%** | **20%** | **17%** | **2%** | **2%** | **2%** |




#### Dadansoddiad Cryno

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn (54%) yn cefnogi'r canllawiau arfaethedig ar ddyluniad cydnerth ac amddiffynfeydd rhag llifogydd. Roedd y mwyafrif o'r holl wahanol fathau o ymatebwyr yn cefnogi'r cynigion. Roedd tua un o bob pump o'r ymatebwyr (19%) yn anghytuno â'r dull gweithredu arfaethedig.

Cafwyd sylwadau cefnogol gan yr ymatebwyr a oedd yn croesawu'r canllawiau, gan gynnwys sylwadau ar gynnwys cydnerthedd a dyluniad fel rhan o'r broses ddatblygu.

Roedd nifer mawr o'r ymatebwyr a wnaeth sylwadau yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ynghylch sut y dylai cynigion datblygu ystyried dyluniad cydnerth ac amddiffynfeydd rhag llifogydd Yn hyn o beth, dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai'r cynigion polisi ar eu ffurf bresennol yn creu dryswch. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gyfyngiadau posibl ar berthnasedd y canllawiau hyn, o'u cyfuno â gofynion adrannau eraill o'r TAN a oedd yn rhagnodol ac yn gyfyngol yn eu barn nhw, fel y rhai yn Adran 11.

Roedd dyluniad cydnerth yn un o'r meysydd y gofynnodd llawer o ymatebwyr am fwy o eglurder yn eu cylch a mwy o ganllawiau ar y ffordd y gellid sicrhau hyn wrth ddatblygu mewn ardaloedd perygl llifogydd. Yn benodol, gofynnodd rhai ymatebwyr sut y dylai'r testun ym Mharagraff 13.4 ar ddatblygiadau dwysedd uwch, defnydd cymysg gael ei gymhwyso o dan amgylchiadau penodol a sut mae'n cysylltu â nodau polisi ehangach y TAN er mwyn sicrhau bod datblygiadau'n cael eu dylunio i wrthsefyll llifogydd. Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr a oedd yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ynghylch mesurau cydnerthedd, gan gynnwys ystyried mesurau cydnerthedd ar gyfer safleoedd cyfan er mwyn atal perygl llifogydd. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen cyfeirio at y berthynas â phrosesau rheoli adeiladu a'u rôl ym maes cydnerthedd a dylunio. Roedd rhai ymatebwyr am gael mwy o eglurder ynghylch mesurau cydnerthedd ar lefel eiddo, gan wahaniaethu rhwng gwahanol fathau o ddatblygiad.

Cafwyd sylwadau eraill a oedd yn awgrymu bod angen eglurder ynghylch y geiriad mewn perthynas ag amddiffynfeydd rhag llifogydd newydd neu well. Cafwyd sylwadau amrywiol ar y mater hwn yn y TAN a oedd yn awgrymu bod angen eglurder ynghylch sut y caiff geiriad y polisi ei gymhwyso mewn perthynas â chynigion newydd a datblygiadau sydd eisoes yn mynd rhagddynt mewn cymunedau. Cafwyd rhai sylwadau hefyd a oedd yn awgrymu bod angen egluro'r geiriad ynghylch amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r goblygiadau o ran llifogydd mewn mannau eraill, gan gynnwys tir trydydd parti.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurder ynghylch rhai pynciau penodol sy'n ymwneud â dyluniad cydnerth ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, gyda rhai yn gofyn am eglurder ynghylch sicrhau bod bioamrywiaeth, seilwaith gwyrdd a datrysiadau seiliedig ar natur yn cael eu hystyried yn hyn o beth. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am sicrhau bod y cynigion yn gyson â chanllawiau polisi cenedlaethol ehangach yn Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio ac yn diweddaru'r canllawiau hynny.

Cafwyd sylwadau eraill ar rai o ddiagramau ehangach a geiriad polisi y broses ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd yn y TAN nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn hwn.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae mân newidiadau wedi cael eu gwneud i'r adran hon er mwyn sicrhau ei bod yn fwy eglur, sef y prif bryder a godwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r prif newidiadau yn ymwneud â'r potensial i ddefnyddio amddiffynfeydd rhag llifogydd fel cyfiawnhad dros ddatblygiadau newydd. Mae'n egwyddor hirsefydlog (o'r strategaeth llifogydd genedlaethol) mai diben amddiffynfeydd rhag llifogydd newydd a gaiff eu cyllido gan arian cyhoeddus yw amddiffyn cartrefi a busnesau sydd eisoes yn bodoli, nid ei gwneud hi'n bosibl codi datblygiadau newydd. Mae'r cyngor yn ailadrodd y pwynt hwn gan gydnabod y gall buddsoddiadau o'r fath mewn seilwaith amddiffyn rhag llifogydd arwain at bwysau i ganiatáu datblygiadau newydd yn yr ardaloedd lle lleolir yr

amddiffynfeydd. Mae TAN 15 yn darparu dull dilyniannol, clir o weithredu o dan y fath amgylchiadau, yn seiliedig ar gwblhau gwaith yn llawn a diweddaru'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio cyn i unrhyw ddatblygiad newydd gael ei ganiatáu ym Mharthau a Amddiffynnir newydd TAN 15.

## Cwestiwn 10: Effeithiau ar y Gymraeg

*Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai diwygiadau i TAN 15 yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

- *Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?*
- *Eglurwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid llunio neu newid y ddogfen arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg,*
- *heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

### Dadansoddiad Cryno

Roedd cwestiwn 10 yn gwestiwn penagored ac, felly, nid oedd modd categoreiddio canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu. Ni chafwyd ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn gan lawer o ymatebwyr ond, ar y cyfan, roedd y rhai a wnaeth sylwadau o'r farn na fyddai'r TAN yn arwain at unrhyw effeithiau nac effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen llunio fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r TAN, a dywedodd rhai ymatebwyr y byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw'r TAN yn cael effaith ar y Gymraeg. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ystyried y Gymraeg fel rhan o brosesau cynllunio ehangach, ond nid yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r cwestiwn hwn am oblygiadau'r TAN i'r Gymraeg.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Cadarnhaodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ein safbwynt cychwynnol, sef bod TAN 15 yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar y Gymraeg, ac na all y TAN gael effaith mewn unrhyw ffyrdd ystyrlon.

Mae TAN 15 wedi cael ei lunio yn unol â Safonau gofynnol y Gymraeg a chaiff ei gyhoeddi yn unol â nhw hefyd.

## Cwestiwn 11: Unrhyw sylwadau pellach

*Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi:*

### Dadansoddiad Cryno

Roedd cwestiwn 11 yn gwestiwn penagored i fynd i'r afael â materion nad oeddent wedi codi yng nghwestiynau blaenorol yr ymgynghoriad. Felly, nid oedd modd categoreiddio canran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull gweithredu. Codwyd amrywiaeth eang o faterion mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, y mae rhai ohonynt yn gorgyffwrdd â materion a godwyd mewn ymateb i gwestiynau eraill yr ymgynghoriad. Yn gyffredinol, gofynnodd y mwyafrif o ymatebwyr am eglurder yn y TAN ynghylch y materion penodol hynny. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ddiffiniadau cliriach a defnydd cliriach o iaith, cywiriadau i wallau fformatio a mwy o gyfeiriadau at wybodaeth gysylltiedig yn y ddogfen.

Roedd y themâu cyffredin a godwyd gan nifer o ymatebwyr ac a oedd yn awgrymu bod angen mwy o eglurder yn y TAN ynghylch meysydd penodol fel a ganlyn: mapio a Map Llifogydd Cymru; cronfeydd dŵr (gan gynnwys y geiriad sy'n awgrymu eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw i safonau eithriadol o uchel); rolau a chyfrifoldebau (gan gynnwys rolau Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ac Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd); gofynion ymgynghori (gan gynnwys awgrymu bod angen pwysleisio ymgynghori'n gynnar yn y ddogfen); draenio dŵr wyneb a SDCau; dyluniad cydnerth; trefniadau gadael a mynediad i safleoedd (gan gynnwys materion yn ymwneud â chynnal a chadw); cynnwys mathau o ddatblygiadau fel rhan o'r categorïau bygythiad; gwybodaeth am asesu canlyniadau llifogydd (gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer mwy o wybodaeth am y gofynion ar gyfer senarios torri a blocio); cynnal a chadw datblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd a chyfrifoldebau; angen am gysondeb â pholisïau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar uchelgeisiau datblygu mewn ardaloedd perygl llifogydd; ystyried y dull polisi a'i oblygiadau trawsffiniol â Lloegr; cynlluniau datblygu a chyfrifoldebau (gan gynnwys ar gyfer datblygwyr) am ystyried safleoedd a goblygiadau perygl llifogydd; Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd (gan gynnwys tabl cyfatebol yn y ddogfen a gwybodaeth am Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd); goblygiadau yswiriant i ddatblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd; datrysiadau seiliedig ar natur i ddatblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd; goblygiadau newid hinsawdd i ddatblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd a gwybodaeth leol a mewnbwn cymunedol i ddatblygiadau mewn ardaloedd perygl llifogydd.

Dywedodd nifer mawr o ymatebwyr fod angen eglurder cyffredinol ynghylch y testun sy'n nodi'r broses ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd perygl llifogydd. Roedd y sylwadau a gafwyd yn awgrymu bod angen eglurder yn y TAN ynghylch y canlynol: sut y dylai awdurdodau lleol gymhwyso Adran 10 o'r TAN pan fo safle wedi'i leoli mewn dau barth neu fwy; cymhwyso cynigion newid defnydd gan gynnwys yn nhermau'r hyn a ganiateir o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987; safleoedd carafanau a gwersylla ac, yn benodol, pa mor rhesymol fyddai disgwyl i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi mewn perthynas â hen arwyddion rhybudd am lifogydd ar y safleoedd hyn; cyfraniadau datblygwyr mewn perthynas â seilwaith a chynnal a chadw; cynnal Asesiad o'r Effaith

ar yr Amgylchedd; a'r broses Galw i Mewn a'r defnydd o Gyfarwyddiadau Hysbysu ar gyfer cynigion datblygu mewn ardaloedd perygl llifogydd.

Cafwyd sylwadau negyddol gan nifer o ymatebwyr yn awgrymu nad yw'r dull gweithredu ar gyfer datblygu mewn ardaloedd perygl llifogydd a nodir yn y TAN yn seiliedig ar risg a chafwyd sylwadau pellach ynghylch faint o hyblygrwydd a chyfleoedd adfywio y bydd yn eu cynnig er mwyn helpu i ddatblygu ardaloedd sy'n wynebu perygl o lifogydd. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y parthau llifogydd yn hyn o beth, yn enwedig Parthau 2 a 3, gan awgrymu'n gyffredinol bod angen mwy o eglurder a hyblygrwydd yma. Yn olaf, o safbwynt dull gweithredu'r TAN mewn perthynas â datblygiadau newydd, cafwyd rhai sylwadau ar sut y byddai amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion.

Cafwyd sylwadau gan rai ymatebwyr ynghylch gweithredu'r TAN newydd yn ehangach, gan gynnwys mewn perthynas ag adnoddau, hyfforddiant a sgiliau a'r angen am systemau monitro. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau hefyd ar y TAN a chysylltiadau â dogfennau ehangach, fel y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan awgrymu y gellid bod wedi gwneud mwy i sicrhau cysondeb rhwng yr ymgyngoriadau ar y ddwy ddogfen ddrafft.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Cydnabyddir y gellir gwneud y cyngor ar benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn ardaloedd perygl llifogydd yn fwy eglur. Felly, rhoddwyd mwy o fanylion am ystyriaethau Rheoli Datblygu a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys sut i benderfynu ar geisiadau ar gyfer safleoedd a leolir mewn dau barth llifogydd neu fwy ac ystyried cynigion newid defnydd ac addasiadau.

Mae testun ar Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 ar y potensial i newid defnydd tir a allai arwain at ailgategoreiddio datblygiad o fygythiad isel i fygythiad uchel, wedi cael ei dynnu o'r ddogfen. Roedd y testun hwn yn creu amwysedd yn yr ymgynghoriad drafft ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai dim ond mewn nifer eithriadol o fach o achosion y byddai'r fath amgylchiadau'n codi.

O safbwynt camau gorfodi mewn perthynas â hen arwyddion rhybudd am lifogydd ar safleoedd carafanau a gwersylla, ystyrir bod hwn yn gyfeiriad polisi rhesymol i sicrhau bod y safleoedd hynny'n cael eu cadw'n ddiogel ar gyfer y defnyddwyr. Gan gydnabod y gall cymryd camau gorfodi achosi problemau adnoddau i awdurdodau lleol, diweddarwyd y canllawiau fel mai'r ymgeisydd/gweithredwr y safle sy'n gyfrifol am ddiweddaru arwyddion drwy nodi y dylai hyn fod yn un o amodau'r caniatâd cynllunio.

Mae'r geiriad ar Gyfraniadau Datblygwyr hefyd wedi cael ei wneud yn fwy clir i gadarnhau y dylai cyfraniadau ar gyfer datblygiadau newydd fod yn gymwys i welliannau i seilwaith amddiffyn rhag llifogydd presennol yn unig ac na fyddent yn caniatáu amddiffynfeydd rhag llifogydd newydd er mwyn galluogi datblygiadau.

## Atodiad – Rhestr o sefydliadau ac unigolion a gyflwynodd sylwadau

| **Awdurdodau Lleol** |
|---|
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyngor Caerdydd |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyngor Sir y Fflint |
| Cyngor Gwynedd |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Cyngor Sir Fynwy – Cynllunio |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Cyngor Dinas Casnewydd |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Cyngor Sir Powys |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Cyngor Bro Morgannwg – Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol/Corff Cymeradwyo SDCau |
| Cyngor Bro Morgannwg – yr Adran Gynllunio |

| Cyfanswm – 24 | Canran cyfanswm yr ymatebwyr o'r categori hwn – 31% |
|---|---|

| **Sector Cyhoeddus** |
|---|
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Cyngor Tref y Barri |
| CADW |
| Cyngor Cymuned Caersws |
| Janet Finch Saunders AS |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cartrefi Dinas Casnewydd |
| Un Llais Cymru |

| **Busnesau** |
|---|
| Dienw |
| Dienw |
| Dienw |
| Arcadis |
| Associated British Ports |
| Cymdeithas Yswirwyr Prydain |
| Clive Onions Ltd |
| Dŵr Cymru |
| Flood Re |
| Hughes Architects |
| JBA Consulting |
| Kier Living Wales and West |
| Lichfields ar ran Bourne Leisure |
| Lichfields ar ran Banc Julian Hodge |
| Redrow Homes |
| RPS ar ran Bovis Homes |
| Turley ar ran TATA Steel |
| Wallingford Hydro Solutions |
| Weetwood |
| WM Consulting ar ran Accessible Retail |
| WSP |

| Cyfanswm – 21 | Canran cyfanswm yr ymatebwyr o'r categori hwn – 27% |
|---|---|

| **Sefydliadau Proffesiynol/Grwpiau Buddiant** |
|---|
| Grŵp Trigolion Pryderus Caersws |
| Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd |
| Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol |
| Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd |
| Comisiwn Dylunio Cymru |
| Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol |
| Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |
| Sefydliad y Peirianwyr Sifil |
| NFU Cymru |
| Cymorth Cynllunio Cymru |
| Grŵp Ffocws Yr Orsedd |
| Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |
| Coed Cadw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Tref Penarth | | Cyfanswm – 13 | Canran cyfanswm yr ymatebwyr o'r categori hwn – 17% |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | | **Unigolion** | |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru<br>Cymdeithas Tai Wales and West<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | | Dienw<br>Dienw<br>Y Cynghorydd Louise Bloom<br>Eilian Jones | |
| Cyfanswm – 15 | Canran cyfanswm yr ymatebwyr o'r categori hwn – 19% | Cyfanswm – 4 | Canran cyfanswm yr ymatebwyr o'r categori hwn – 5% |